

## **Gwybodaeth bwysig ynglŷn â diogelwch wrth gynllunio eich digwyddiad**

### **Yr Heddlu**

Mae swyddogaeth yr heddlu mewn digwyddiadau a flaengynlluniwyd wedi'i chyfyngu i'w cyfrifoldebau craidd. Fodd bynnag, fel rhan o'r broses o gynllunio digwyddiad bydd yr heddlu'n adolygu'r digwyddiadau a'r cynlluniau rheoli traffig drwy'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch os oes angen sefydlu grŵp o'r fath ac yn rhoi cyngor ac arweiniad lle bo angen. Ni allant ddarparu adnoddau i gyflwyno cynlluniau rheoli traffig ar gyfer digwyddiadau a flaengynlluniwyd. Mae'n rhaid i drefnwyr sicrhau bod eu cynlluniau'n gadarn ac y gall stiwardiaid wedi'u hachredu'n briodol eu gweithredu. Mae stiwardiaid a marsialiaid preifat wedi dod yn ffordd gydnabyddedig o gefnogi digwyddiadau a flaengynlluniwyd. Fodd bynnag, rhaid cydnabod ei bod yn anghyfreithlon i stiwardiaid a marsialiaid gyfeirio traffig ar y briffordd gyhoeddus.

Dylai trefnwyr roi gwybod i'r heddlu am eu digwyddiad yn gynnar yn y broses gynllunio.

Os oes gennych ddigwyddiad y teimlwch y dylai'r heddlu wybod amdano dylech ei anfon i'w blwch post penodol ar gyfer cynllunio digwyddiadau:

[ossforceeventplanningunit@nthwales.pnn.police.uk](mailto:ossforceeventplanningunit@nthwales.pnn.police.uk)